Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Llun, 3 Chwefror 2014**

Amser:
**14:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Gareth Williams**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8008/8019
PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

## Agenda

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

### 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 (14.30 - 14.45) (Tudalennau 1 - 2)

**CLA(4)-04-14 – Papur 1**– Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**CLA353 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 20 Ionawr 2014; Fe'u gosodwyd ar: 23 Ionawr 2014; Yn dod i rym ar: 14 Chwefror 2014

**CLA354 - Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 21 Ionawr 2014; Fe'u gosodwyd ar: 23 Ionawr 2014; Yn dod i rym ar: 31 Gorffennaf 2014

**CLA355 – Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) (Diwygio) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 22 Ionawr 2014; Fe'u gosodwyd ar: 24 Ionawr 2014; Yn dod i rym ar: 28 Chwefror 2014

**CLA356 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 22 Ionawr 2014; Fe'u gosodwyd ar: 24 Ionawr 2014; Yn dod i rym ar: 14 Chwefror 2014

**CLA357 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 22 Ionawr 2014; Fe'u gosodwyd ar: 24 Ionawr 2014; Yn dod i rym ar: 14 Chwefror 2014

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (14.45 – 16.00)

(vi) lle mae’r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae’n bwriadu ei gyhoeddi; neu’n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson;

(ix) lle mae unrhyw fater sy’n ymwneud â busnes mewnol y pwyllgor, neu fusnes mewnol y Cynulliad, i gael ei drafod.

**Ystyried adroddiad drafft ynghylch yr ymchwiliad i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE** (Tudalennau 3 - 31)
**CLA(4)-04-14 – Papur 2** – Adroddiad Drafft

**Bil drafft Cymru: Papur safbwynt** (Tudalennau 32 - 59)
**CLA(4)-04-14 – Papur 3** – Papur Safbwynt

**Papurau i’w nodi** (Tudalennau 60 - 61)

**CLA(4)-04-14 – Papur 4** – Gohebiaeth gan yn Prif Weinidog at y Llywydd

**Adolygiad o Drefn Gwaith y Pwyllgor** (Tudalen 62)
**CLA(4)-04-14 – Papur 5**

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA(4)-04-14: Papur 1

GWYBODAETH GEFNDIR AM OFFERYNNAU STATUDOL GYDAG ADRODDIADAU CLIR

**CLA353 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) 2014**

**Gweithdrefn:** Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004 ("y prif Reoliadau") sy'n gwneud darpariaeth o ran y cyffuriau, y meddyginiaethau neu'r sylweddau eraill y caniateir eu harchebu ar gyfer cleifion wrth ddarparu gwasanaethau meddygol o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn ystyr adran 42 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

**CLA354 - Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn:** Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 a Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 i fewnosod darpariaethau newydd ac

ehangu darpariaethau presennol sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni adeiladau yng Nghymru.

**CLA355 - Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) (Diwygio) 2014**

**Gweithdrefn:** Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2007 (O.S. 2007/3573 (Cy.316)) er mwyn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2013/46/EU yng Nghymru.

Mae rheoliad 2(3), (5) a (6) yn ei gwneud yn bosibl defnyddio proteinau llaeth geifr wrth weithgynhyrchu fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol.

Mae rheoliad 2(4) yn gostwng lleiafswm y lefelau protein a ganiateir mewn fformiwla ddilynol sydd wedi ei gweithgynhyrchu o hydrolysatau protein i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â fformiwla fabanod.

**CLA356 - Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2014**

**Gweithdrefn:** Negyddol

Bydd y Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993 ('Rheoliadau 1993') i gymryd i ystyriaeth cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor lleol a gyflwynir yn unol â gofynion y Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 ('Rheoliadau 2013').

Mae'r diwygiadau i Reoliadau 1993 yn galluogi i ostyngiadau sydd i'w gwneud yn unol â Rheoliadau 2013 gael eu hystyried o ran bilio am y dreth gyngor a'i gorfodi.

**CLA357 - Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn:** Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 ('Rheoliadau 1992') i gymryd i ystyriaeth gynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor lleol a gyflwynir, a hynny yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ('Rheoliadau 2013') neu'r rhai sy'n gymwys, oherwydd diffyg, yn rhinwedd paragraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Mae'r diwygiadau i Reoliadau 1992 yn galluogi i ostyngiadau a wneir yn unol â Rheoliadau 2013 gael eu hystyried o ran bilio am y dreth gyngor a'i gorfodi.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon